## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun ar 17 Mehefin 2009 am 9.30 a.m.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr I W Armstrong, J R Bartley, J B Bellis, B Blakeley, J Chamberlain Jones, J A Davies, M Ll Davies, P A Dobb, P C Duffy, M J Eskersely, G C Evans, D Hannam, C Hughes, R W Hughes, E R Jones, L M Morris, P W Owen, D Owens, D I Smith, D A J Thomas, S Thomas,(Cadeirydd) J Thompson-Hill, C H Williams

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, Rheolwr Rheoli Datblygu, Arweinydd Tîm (Ceisiadau Mawrion), Arweinydd Tîm (Cymorth), (G Butler), Swyddog y Gwasanaethau Cwsmeriaid (Judith Williams) a Catrin Gilkes (Cyfieithydd)

### DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Y Cynghorwyr B Cowie, J M Davies, G Kensler, A Pennington, B A Smith, I Gunning, J Cahill

### 91 MATERION BRYS

Y Cynghorydd W L Cowie

Rhoddodd y Cynghorydd D Owens wybod i'r Pwyllgor fod y Cynghorydd Cowie allan o'r ysbyty ac yn gwella adref. Cynigiwyd anfon llythyr at y Cynghorydd Cowie, yn cynnig dymuniadau gorau'r Pwyllgor am wellhad buan iddo.

### 92 CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) a oedd yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac yn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu yn eu cylch.

***PENDERFYNWYD*** *bod:-*

*(a) argymhellion y Swyddogion, fel sydd yn yr adroddiad a gyflwynir nawr, yn cael eu cadarnhau a bod caniataid neu wrthodiadau cynllunio, beth bynnag yw'r achos, yn cael eu rhoi fel sy'n briodol o dan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal 1991, Rheoliadau Hysbysebu Cynllunio Gwlad a Thref 1994 ac/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 i'r datblygiadau a gynigir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a restrwyd yn yr atodlen a gyflwynir nawr:-*

(i) Caniataid

| Rhif Cais | Disgrifiad a Sefyllfa |
|---|---|
| 43/2009/0052/PF | Yn dilyn ystyried adroddiad ar ymweliad safle a gynhaliwyd ar 12 Mehefin 2009 a llythyrau ychwanegol gan Ddŵr Cymru. Codi 1 annedd ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau (cynnig diwygiedig i'r gymeradwyaeth flaenorol honno o dan rif cais 43/2007/1134/PO)<br>**Tir rhwng Greycote a Highfield**<br>**Bishopswood Road, Prestatyn**<br>**RHOI**<br>Amod 11 – Cyn dechrau unrhyw waith ar y safle (gan gynnwys tynnu coed neu brysgwydd), cynhelir ymchwiliad |

manwl o'r safle i archwilio effaith botensial y datblygiad ar; sefydlogrwydd tir y safle, draenio'r tir a chyflwr arwyneb Bishopswood Road. Bydd unrhyw argymhellion a luniwyd o'r adroddiad hwn yn cael eu gweithredu'n llawn yn ystod unrhyw waith safle a dim ond ar ôl cytundeb ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Rheswm: Er lles sefydlogrwydd tir, diogelwch ac amwynder y gymdogaeth.
12. Bydd yr holl goed a gwrychoedd a gedwir fel rhan o'r datblygiad a ganiateir trwy hyn yn cael eu diogelu yn ystod gwaith clirio ac adeiladu'r safle gan ffens 1 metr o uchder a godir 1 metr y tu allan i derfyniadau pellaf blaguryn y gangen, neu'n unol â chynllun arall a gytunwyd ar bapur gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; ni fydd unrhyw ddefnyddiau adeiladu neu eitemau o unrhyw ddisgrifiad yn cael eu llosgi na'u rhoi ar y tir sy'n sefyll rhwng boncyff coeden neu wrych a'r ffens dan sylw, ac ni fydd lefel y tir presennol yn cael ei chodi na'i gostwng o fewn yr ardaloedd hyn, nac unrhyw ffosydd na rhediadau pibau'n cael eu cloddio, heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
13. Bydd gollyngiadau dŵr budr a dŵr arwyneb yn cael eu draenio ar wahân i'r safle.
Rheswm: Er mwyn diogelu cyfanrwydd system garthffosiaeth y cyhoedd.
14. Ni fydd unrhyw ddŵr arwyneb yn cael ei alluogi i gysylltu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, â system garthffosiaeth y cyhoedd oni bai y cymeradwyir fel arall ar bapur gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
Rheswm: Atal system garthffosiaeth y cyhoedd rhag cael ei orlwytho'n hydrolegol, er mwyn diogelu iechyd a diogelwch y trigolion presennol a sicrhau nad oes niwed i'r amgylchedd.
15. Ni fydd dŵr ffo tir ddraeniad yn cael ei adael i ollwng, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i system garthffosiaeth y cyhoedd.
Rheswm: Atal system garthffosiaeth y cyhoedd rhag gorlwytho'n hydrolegol a llygredd i'r amgylchedd.

**Nodyn i'r Ymgeisydd**

Fe'ch atgoffir bod safle'ch datblygiad yn cynnwys coed gwarchodedig. Gallai difrodi neu dynnu'r coed hynny'n fwriadol olygu cyflawni trosedd ac fe'ch cynghorir i gymryd pob rhagofal angenrheidiol i sicrhau y caiff y coed eu gwarchod cyn, yn ystod ac ar ôl gwaith ar y safle.

47/2009/0426/PF

**Yn llefaru ar ran: Anwen Lewis**

Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan: Yr Ymgeisydd

**Parhau i ddefnyddio tir fel gardd a chodi hafod i'w ddefnyddio fel ystafell arddio/chwarae (yn rhannol o edrych yn ôl)**

**7 Hen Afon, Tremeirchion, Llanelwy**

**RHOI**

<u>Diwygiadau i'r Amodau</u>

2. Bydd yr hafod yn cael ei ddefnyddio'n unig at ddibenion atodol i'r anhedd-dŷ.
3. Ni fydd tirlunio arfaethedig y safle'n cael ei ddangos ar y cynlluniau a gyflwynwyd, ond bydd yn unol â manylion eraill fel y gallai'r Awdurdod Lleol eu cyflwyno a'u cymeradwyo ar bapur ymhen 3 mis o ddyddiad y caniatâd hwn, i gynnwys coed/gwrychoedd/prysgwydd/plannu aeddfetach. Bydd y cynllun cymeradwy'n cael ei weithredu'n llawn yn nhymor

plannu Hydref 2009 a bydd unrhyw goed, gwrychoedd neu brysgwydd sy'n marw, sy'n cael eu tynnu neu sy'n mynd yn niweidiol neu'n afiach iawn o fewn 5 mlynedd o gael eu plannu'n cael eu disodli yn y tymor plannu canlynol gyda sbesimenau o faint a rhywogaeth debyg.
**Amod Newydd**
5. Bydd gorffeniad allanol yr hafod a ganiateir trwy hyn yn Goedwig Werdd fel y nodwyd ar y cynllun cymeradwy a bydd yn cael ei gadw a'i gynnal mewn gorffeniad felly wedi hynny.
Rheswm: er lles amwynder gweledol.

Dileu'r Nodyn i'r Ymgeisydd

46/2009/0443/PF

Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol: Cyngor Tref Llanelwy
Dymchwel y cwt sgowtiaid presennol, codi 2 fyngalo ar wahân, newidiadau i'r mynediad presennol i gerbydau a gwaith cysylltiedig.
**Cwt Sgowtiaid, Penrhewl, Llanelwy**
**RHOI**
Nodyn Ychwanegol i'r Ymgeisydd
Fe'ch cynghorir i gysylltu ag Adain Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor a'r Adain Rheoli Adeiladau i gael eglurhad ar y gofynion deddfwriaeth ar wahân ar y cam dymchwel sy'n ymdrin ag unrhyw asbestos sy'n bresennol yn yr adeilad presennol.

(i) Gwrthodiadau

43/2007/0662/PF

**Yn llefaru ar ran: Eirlys Palfrey**
Yn dilyn ystyried 1 llythyr sylwadau ychwanegol gan: Gyngor Tref Prestatyn
Dymchwel y tŷ clwb presennol, codi tŷ clwb newydd a chodi 4 annedd ar wahân a newidiadau i'r mynediad presennol i gerbydau.
**Clwb Golff St Melyd, The Paddock, Prestatyn**
**GWRTHOD**

45/2007/1043/PF

**Yn llefaru ar ran: Mike Pender**
Datganodd y Cynghorydd D A J Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr yn ystod yr ystyriaeth o hwnnw.
Yn dilyn ystyriaeth o 3 llythyr sylwadau ychwanegol gan: Gyngor Tref y Rhyl, y Gwasanaeth Priswyr Lleol a'r Ymgeisydd.
Datblygu 1.35 ha o dir drwy godi 41 annedd fforddiadwy gan gynnwys bloc o 6 fflat ar gyfer byw'n annibynnol, 1 uned fasnachol ac adeiladu mynediad newydd i gerbydau/cerddwyr
**Tir oddi ar Ystâd Fasnachol Cefndy, Ffordd Derwen a Heol Cefndy, y Rhyl**
**GWRTHOD**

(iii) Tynnwyd yn ôl

24/2008/0149/PR

Manylion cynllun, graddfa'r ymddangosiad allanol, ffyrdd mynediad a thirlunio 11 annedd a gyflwynwyd yn unol ag amod 1 caniatâd cynllunio amlinellol rhif cod 24/2004/0873/PO
**Tir nesaf at Hafod Ynys, Rhewl, Rhuthun**

**TYNNWYD YN ÔL**

**93 EITEMAU GORFODAETH**

Adroddiadau a gyflwynwyd gan Bennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

| | |
|---|---|
| ENF/2009/00039 | Gosod tanc trin dŵr budr a ffos gerrig<br>**Bryn Derwen, Ffordd yr Abaty, Llangollen**<br>**AWDURDODWYD**<br>a) Os bydd y tanc trin yn cael ei ddefnyddio i wasanaethu'r datblygiad cyn rhoi unrhyw ganiatâd cynllunio, bydd hysbysiad gorfodaeth yn cael ei gyflwyno i sicrhau symudiad y tanc trin ac adfer y tir yn unol â'r dogfennau cynllunio cymeradwy ymhen deufis o ddyddiad cyflwyno'r hysbysiad.<br>Dechrau gweithrediadau erlyn lle mae unrhyw berson y cyflwynwyd Hysbysiad iddo yn methu neu'n gwrthod cydymffurfio â gofynion yr Hysbysiad. |
| ENF/2009/00041 | Gwaith cloddio heb ei awdurdodi o ardd gefn eiddo domestig<br>**Terfyn Hall West, Ffordd Gronant, Prestatyn**<br>**AWDURDODWYD**<br>Cyflwyno Hysbysiad Gorfodaeth i sicrhau adferiad y tir a gloddiwyd, y lefelau a'r tirlunio.<br>Dechrau gweithrediadau, neu unrhyw weithred briodol arall o dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y person, neu'r personau, y cyflwynwyd unrhyw Hysbysiad Gorfodaeth, neu Hysbysiad arall iddynt, pe byddent yn methu cydymffurfio â'r gofynion am hynny. |
| ENF/2009/00042 | Toriad 1) Codi ffens sydd dros 2 fetr o uchder<br>Toriad 2) Codi ffens dros 1 metr o uchder nesaf at briffordd<br>**Stafford Park, Marsh Road, Y Rhyl**<br>Tynnwyd yr adroddiad yn ôl oherwydd cafodd y ffensys eu gostwng i uchder nad oes angen caniatâd cynllunio ar eu cyfer. |

Daeth y cyfarfod i ben am 11:30am

********